



**COFNODION TRYDYDD CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
ADDYSG OEDOLION CYMRU | ADULT LEARNING WALES**

**A gynhaliwyd Ddydd Sadwrn 23 Mawrth 2019 ar Gampws Wrecsam,
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam**

Yn bresennol:

Swyddogion – John Graystone (Cadeirydd), Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc) (3).

Aelodau Unigol, Cefnogwyr neu Staff – Mark Baines, Gareth Cork, Caroline Davies, David Elis-Williams, Gayle Hudson, Michelle Kerswell, Sheila Maxwell, Eileen Moyle, Stephen Nicholls, Alexandra Raab, Dafydd Rhys, Julie Roberts, Suzanne Samuel, Nick Taylor, Kirsty Merlin Tudor (15).

Aelodau Unigol a Chynrychiolwyr Cangen – Cathy Clark (Oakdale a'r Coed-duon), Jenni Jones-Annetts (Caerffili), Daryl Leeworthy (Merthyr Tudful), David MacManus (Caerffili), Sonia Reynolds (Dyffryn Aman Uchaf a Chwm Twrch), Marilyn Thomas (Caerffili) (6).

Aelod Unigol a Chynrychiolydd Mudiad Cyswllt – David Smith (Cwmniau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru) (1).

Siaradwyr, Enillwyr Gwobrau ac Eraill yn bresennol am gyfnodau amrywiol yn ystod y dydd – Lesley Griffiths AC (Aelod dros Wrecsam, Cynulliad Cenedlaethol Cymru); Philip Beacall (Enillydd Gwobr Margaret Jones), Dilys Beacall, Jeanette Dowinton, Cath Hicks, Andrew Tudor, Jane Watkins; Cilla Ross (arweinydd gweithdy); Iwan Hywel (Mentrau Iaith Cymru); Richard Knoyle (Archwilydd, Btp Associates Ltd.); Gwynfor Owen (cyfieithydd ar y pryd); Mike Dean (ffotograffwr) (12).

Ymddiheuriadau:

Vivien Allen, Leanne Andreadis, Rachel Burton, Sue Carlick, Julie Cook (Wales TUC Cymru), Cath Dawkes, Maggi Dawson (Cangen Dyffryn Aman Uchaf a Chwm Twrch), Amanda Doyle, Christopher Franks, Christina Gallagher, Jeremy Gass, Adele Gatt, Louise Gaw (Arts Factory), David Girdler, Jonathan Goddard, Adrian Heathfield, Martin Hughes, Gerry Jenson, June Jeremy, Ron Leach (Unite the Union, Prifysgol Caerdydd), Matthew Lloyd, Nichola Lowe, Hazel Maguire, G.I.G. Marsden, Clive Morgan, W.J. Morris, Kalpana Natarajan, Tim Owen, Graham Price, Martyn Reed, Donna Ridler, Susan Roberts, Patrick Robson, Toni Schiavone, Guy Wallace Smith, Jan Tiley, Russell Todd, Heather Willbourn, Ceri Williams, Huw Williams (Cangen Merthyr Tudful) (40).

Eitem	ADDYSG OEDOLION CYMRU ADULT LEARNING WALES CYNHADLEDD FLYNYDDOL A CHYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2019
1.	<p>Gweithdai'r Gynhadledd a Seremoni Wobrwy</p> <p>Yn y gweithdy cyntaf cyn cinio, siaradodd Cilla Ross o The Co-operative College am ddatblygiadau cyffrous wrth greu Prifysgol Gydweithredol. Fel aelod o'r Comisiwn Canmlwyddiant yn nodi canrif ers adroddiad 1919 ar addysg oedolion, a dorrodd dir newydd, fe wnaeth Cilla Ross hefyd esbonio'r ymgyrch gyhoeddus sy'n hybu'r brifysgol, a rhannodd y cyfranogwyr yn grwpiau bychain i ateb y 12 cwestiwn sy'n ganolbwynt i'r Comisiwn. Yn yr ail weithdy dan arweiniad Mark Baines a Cath Hicks, edrychwyd ar y ffordd orau o ddefnyddio arian a gafwyd gan ein haelodau a'n cefnogwyr, sydd eisoes yng nghoffrau'r sefydliad, a sut i geisio rhoddion a chymynroddion yn y dyfodol. Lluniodd y cyfranogwyr grwpiau a rhoi adborth ar syniadau am ffyrdd o gyflawni adenillion cadarnhaol.</p> <p>Yna, gydag AC Wrecsam, Lesley Griffiths, yn bresennol, cyflwynwyd Gwobr Margaret Jones ar gyfer 2019 i Philip Beacall o Sir Ddinbych. Fe wnaeth y wobwr flynyddol hon, sy'n cydnabod unigolyn sydd wedi goresgyn rhwystrau rhag llwyddiant tra'n dysgu gyda ni, nodi cynnydd Phil ar amrywiol gyrsiau Ffotograffiaeth, yn dilyn cymorth wrth addasu i'r ffaith bod ganddo barlys yr ymennydd. Mae gwobr Siân Thomason yn nodi dysgwr neu grŵp y mae ei gyfraniad neu eu cyfraniad wedi ysbrydoli eraill, ac enillydd 2019 oedd grŵp o 9 menyw ddu ac ethnig lleiafrifol o Grangetown yng Nghaerdydd. Nid oeddent yn gallu bod yn bresennol, felly derbyniwyd y wobwr ar eu rhan gan Michelle Kerswell, a esboniodd fwy am y ffordd roedd y grŵp wedi mynd o ddsbarthiadau addurno cacennau i ddysgu sgiliau technoleg gwybodaeth ac i fwy o integreiddio â chymunedau eraill yn ne Cymru.</p>
2.	<p>Cyflwyniad i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB), cymeradwyo cofnodion y CCB blaenorol a'r newyddion diweddaraf am gynigion y cytunwyd iddynt yno</p> <p>Croesawodd John Graystone bawb i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Cadarnhaodd fod y cyfarfod wedi'i gynnull yn gyfansoddiadol a bod cworwm yn bresennol, gan nodi bod 40 o ymddiheuriadau ffurfiol wedi dod i law. Etholwyd Mark Baines yn unig rifwr ar gyfer y gofynion pleidleisio. Roedd y ddarpariaeth yn y cyfansoddiad ar gyfer pleidleisio trwy ddirprwy yn golygu bod Ysgrifennydd y Cwmni eisoes wedi derbyn 20 pleidlais ymlaen llaw. Penodwyd y Cadeirydd yn ddirprwy ar gyfer 19 ohonynt, gyda'r un bleidlais arall yn cael ei bwrw gan aelod penodedig o'r Llawr.</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion drafft ail Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Addysg Oedolion Cymru Adult Learning Wales, a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Castell-nedd ar 14 Ebrill 2018, yn gofnod cywir (cynigiwyd: Cathy Clark; eiliwyd: Daryl Leeworthy).</p> <p>O ran gweithgarwch dilynol yn gysylltiedig â'r pum cynnig a basiwyd flwyddyn yn gynt, roedd dogfen yn amlinellu'r datblygiadau wedi'i dosbarthu gyda phapurau'r CCB. Ymhelaethodd amryw aelod o'r staff amdanynt. Er y cydnabuwyd bod mwy o</p>

waith i'w wneud ar fynd i'r afael ag unigrwydd, roedd cryn dipyn wedi'i gyflawni o ran rhoi cymhorthdal ar gyfer gweithgareddau, gyda llawer o'r gwaith yn troi o gwmpas y canghennau (a Merthyr Tudful yn fodel arbennig o dda ac addas i'w gopio). Roedd strwythur ffioedd gostyngedig i ganghennau yn fenter gysylltiedig i annog cyfranogiad, ac roedd ariannu teithio i rai myfyrwyr yn ffordd bellach o ddileu rhwystrau mewn ambell achos.

O safbwynt y defnydd o blastigau a'r agenda Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, roedd llawer o wybodaeth wedi'i lwytho i lwyfannau Sharepoint a Moodle y mudiad er mwyn i diwtoriaid a dysgwyr ei ddefnyddio ar y thema drawstoriadol hon – er y gwnaed y pwynt nad yw pob tiwtor yn defnyddio'r llwyfannau hynny. Hefyd, roedd eiriolwyr amgylcheddol brwdfrydig ymhlith y staff yn monitro'r defnydd ar blastig yn ein swyddfeydd (er nad oedd pob landlord yn ein swyddfeydd rhent yn gwbl barod i leihau'r defnydd ar blastig). Roedd Fforymau Rhanbarthol yn cael eu defnyddio'n fodd o ledaenu'r negeseuon hyn hefyd. Un awgrym o'r Llawr oedd defnyddio taflenni agenda pob math o gyfarfod i annog cyfranogwyr i ddod â'u cwpanau aml dro eu hunain i gynulliadau o'r fath: nodwyd fod plastigau untro wedi'u defnyddio'r diwrnod hwnnw gan arlwywyr Prifysgol Glyndŵr Wrecsam.

Roedd y cynnig ynghylch Cymru gydweithredol wedi bod yn ganolog i'r gweithdy cyntaf a gynhaliwyd y bore hwnnw. Diolchwyd i David Smith am ei ymrwymiad parhaus i weithio gyda'r Mudiad ar y thema hon, gan sicrhau bod grŵp strategol cenedlaethol a nifer o is-grwpiau'n deillio ohono yn cynnal y momentwm arddulliau cydweithredol mewn addysgu oedolion (er, rhaid cyfaddef, roedd arolygiad Estyn ym mis Ionawr 2019 wedi arafu rhywfaint o'r momentwm hwnnw).

Ynghylch y cynnig ar gyfranogiad aelodau a threfniadau democrataidd, roedd dau ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yn 2018 yn fentrau a gafodd gryn gefnogaeth, felly roedd hi'n drueni bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y miloedd o ymatebion a gafwyd o blith ein haelodau yn gyfystyr ag un ateb sefydliadol. O ran trefniadau democrataidd, byddai'r adolygiad cyfansoddiadol ohonynt a drefnir i'w gynnal erbyn Ebrill 2020 yn rhoi cyfle i aelodau roi eu sylwadau am sut mae'r trefniadau presennol (sydd bellach ar waith ers 2 flynedd) yn gweithio yn eu tyb nhw.

Yn olaf, o ran aelodaeth y Mudiad, roedd y system a oedd yn annog dysgwyr i ddod yn aelodau am ddim yn golygu bod ein haelodaeth wedi cynyddu i ryw 2,700 o bobl ar hyn o bryd. Gwerthfawrogwyd bod angen troi hyn yn fath ystyrlon o aelodaeth, trwy'r gwaith annog sy'n cael ei wneud gan Dafydd Rhys ac eraill. Hefyd, gwir dweud nad oedd pob tiwtor wedi llwyr dderbyn pwysigrwydd hyn eto a bod arnynt angen rhagor o hyfforddiant arno. Dylai diwrnod unedig newydd y tiwtoriaid a chyfarfodydd y Fforymau Rhanbarthol bob tymor gynorthwyo â'r ddealltwriaeth honno, ac ystyriwyd bod diwygio'r Fforymau Rhanbarthol i roi cymhelliant i ddysgwyr a thiwtoriaid gymryd rhan gyda'i gilydd yn gam da. Hefyd, nodwyd effaith yr aelodaeth estynedig ar y gofyniad am nifer uwch yn gworwm mewn Cyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol – sef 40 aelod yn gyfansoddiadol, er bod hynny'n cynnwys pleidleisiau trwy ddirprwy.

3.	<p>Cyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2017/18 Addysg Oedolion Cymru Adult Learning Wales</p> <p>Cyfeiriodd David Elis-Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau, at y wybodaeth ariannol gryno a ddsbarthwyd gyda phapurau'r CCB. Roedd yr Adroddiad a'r Datganiadau Ariannol llawn, a oedd ar gael adeg cofrestru, wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor. Roedd pob un o 6 amcan ariannol y Mudiad ar gyfer y flwyddyn wedi'u cyflawni ac, wrth gyfeirio aelodau at dudalen 25 yr Adroddiad, soniodd am warged gweithredol bychan cyn cymhwyso taliadau pensiwn gorfodol, a oedd wedi arwain at ddiffyg cyffredinol.</p> <p>Cadarnhaodd Richard Knoyle ar ran yr archwilwyr, Btp Associates Ltd., fod eu hadroddiad unwaith eto'n ddiamod (h.y. yn gadarnhaol) a darllenodd farn yr archwilwyr o'r Adroddiad, yn datgan bod yr Adroddiad wedi'i baratoi yn unol â gofynion statudol a chyfreithiol.</p> <p>Cynigiwyd y dylid derbyn yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2018 (cynigiwyd: David Smith; eiliwyd: Sonia Reynolds) a chymeradwywyd hyn gyda 51 pleidlais o blaid, dim un yn erbyn ac ni ataliwyd yr un bleidlais – mae'r cyfanswm pleidleisio hwn a chyfansymiau dilynol yn cynnwys yr holl bleidleisiau oedd wedi'u bwrw trwy ddirprwy. Diolchwyd i Richard Knoyle am ei gyfraniad ac ymadawodd ef y cyfarfod y pryd hwn.</p>
4.	<p>Ailbenodi Btp Associates Ltd. yn archwilwyr ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19</p> <p>Fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio, dywedodd Sonia Reynolds fod y Pwyllgor yn fodlon â Btp Associates Ltd. yn archwilwyr a chynigiodd eu hailbenodi ar gyfer archwiliad blwyddyn ariannol 2018/19. Cymeradwywyd y cynnig (cynigiwyd: Sonia Reynolds; eiliwyd: Gareth Cork), eto gyda 51 pleidlais o blaid, dim un yn erbyn ac ni ataliwyd yr un bleidlais.</p>
5.	<p>Adroddiad gan ein cynrychiolwyr ar bedwar Llys Prifysgol</p> <p>Dyma eitem newydd ar yr agenda, yn hysbysu aelodau am ddatblygiadau'n deillio o statws ffurfiol y Mudiad ar Lysoedd Prifysgolion Abertawe, Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd. Ychwanegwyd argraffiadau llafar at ddau o'r pedwar adroddiad ysgrifenedig. Siaradodd David Elis-Williams am ei brofiad dros dair blynedd yn aelod o Lys Bangor, a oedd yn rhoi trosolwg o ddatblygiadau addysgol cadarnhaol yn y Brifysgol yn gyson, ond a oedd hefyd eleni wedi gweld atebolrwydd mwy agored i raddau mewn ymateb i gwestiynu – er enghraifft ar ddyfodol y cartref lle'r oedd yr Is-ganghellor oedd newydd ymadael yn arfer byw. Dywedodd Jenni Jones-Annetts, yn ei blwyddyn gyntaf fel cynrychiolydd yng Nghaerdydd, mai'r uchafbwynt i'r Mudiad oedd y cyflwyniad a wnaed i'w rhagflaenydd, Elaine Gwynne, a oedd wedi rhoi'r gorau i'w rôl yn enw Cymdeithas Addysg y Gweithwyr ac Addysg Oedolion Cymru Adult Learning Wales, wedi 33 blynedd.</p> <p>Holodd David Smith tybed a oedd hi'n bosibl cyflwyno cynigion i'r Llysoedd hyn, yn</p>

	<p>benodol yn gysylltiedig â'r Comisiwn Canmlwyddiant ar Adroddiad Addysg Oedolion 1919 a'i ddeilliannau. Byddai ymholiadau'n cael eu gwneud fel y gellid, os byddai hynny'n bosibl, rhoi cynnig safonol gerbron y Llysoedd pan fyddent yn cyfarfod yn 2020.</p>
<p>6.</p>	<p>Adroddiad y Prif Weithredwr ar waith y flwyddyn</p> <p>Gan ddefnyddio cyflwyniad PowerPoint, siaradodd Kathryn Robson am weledigaeth a datganiadau cenhadaeth newydd y Mudiad, a'r nodau strategol a ddeilliodd o Ddiwrnod Cynllunio a gynhaliwyd yn ystod haf 2018. Dangosodd ffigurau o'n darpariaeth addysgol yn 2017/18 ein bod yn rhan o hanes gwael y genedl gyfan wrth addysgu'r Gymraeg. Nid oeddem yn gwneud digon ychwaith i godi'n proffil (fel y gwnaed yn glir yn ail weithdy'r bore hwnnw), er bod y math o dwf cynaliadwy yr oeddem ni'n ei geisio yn cynnwys mwy na dim ond arian: roedd hefyd yn golygu cynyddu nifer ein haelodau, ein dysgwyr a'n cyrhaeddiad - roedd ein presenoldeb gwael presennol yn Sir Benfro a Cheredigion yn un enghraifft yr oedd angen gweithredu arni. Roedd nifer ein dysgwyr wedi gostwng yn raddol dros y ddwy flynedd flaenorol wrth i ni ganolbwyntio'n fwy ar ddilyniant addysgol iddynt, cyflawni blaenoriaethau Gweinidogion ac, felly, cynnal llai o gyrsiau byrrach. Wrth i ni barhau i gyd-drafod pwysigrwydd cynnal cyllid ar gyfer ein gwaith heb achrediad gyda Llywodraeth Cymru, roedd cyfradd llwyddiant ein dysgwyr yn parhau'n gadarnhaol. Roedd ein dull partneriaeth yn unigryw ac yn bwysig i ni, er bod angen i ni wneud mwy ar gyfer dysgwyr iau, trwy fynd at fudiadau ieuenctid i gynnig ein gwasanaethau partneru.</p> <p>Pwysleisiodd hi bwysigrwydd ein harolygiad gan Estyn ychydig fisoedd ynghynt, yr oedd Mark Baines a Michelle Kerswell yn staff allweddol ar ei gyfer. Byddai deilliannau'r arolygiad yn gyfrinachol hyd nes cyhoeddi'r adroddiad ym mis Mai, ond yn gyffredinol, roedd ei ganfyddiadau am safonau addysgu a dysgu da yn cydfynd â'n barn ni, ac roedd wedi nodi bod angen gwneud mwy o waith ar agweddau ar asesu effaith, diogelu, a chymorth i ddisgwyr. Roedd ein lefelau ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Gweinidogion ac Aelodau Cynulliad yn dda, a bu datblygiadau calonogol diweddar o ran dyfarniadau a pholisïau tâl ar gyfer tiwtoriaid. Fodd bynnag, bu'n weithred drist ac emosiynol, braidd, rhoi campws Harlech ar werth: gobeithiwyd cadarnhau ei werthu cyn bo hir. Derbyniwyd adroddiad y Prif Weithredwr yn ffurfiol gan y cyfarfod.</p>
<p>7.</p>	<p>Adroddiad y Cadeirydd ar y flwyddyn ddiwethaf – gan gynnwys rhestr o aelodau'r Cyngor mewn swydd yn ystod 2018/19</p> <p>Cyfeiriodd John Graystone y mynychwyr at restr Aelodau'r Cyngor a fu'n weithgar yn y cyfnod ers CCB y llynedd, gan ddiolch iddynt am eu gwasanaeth. Fe wnaeth grybwyll Gayle Hudson yn benodol, a oedd yn rhoi'r gorau i'w rôl fel llywodraethwr penodedig ar ddiwedd y mis, a nododd fod 5 aelod newydd o'r Cyngor wedi dechrau eu cyfnodau gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Roedd yn arbennig o ddiolchgar i'r ddau Is-gadeirydd a Chadeiryddion y Pwyllgorau am eu gwaith da parhaus ac, yn fwy cyffredinol, i staff, gwirfoddolwyr a changhennau am eu hymroddiad.</p>

	<p>Soniodd am yr angen i ddangos 'gwerth ychwanegol' ein gwaith fel sefydliad, ac am rôl y Mudiad yn datblygu ymwybyddiaeth ddemocrataidd ein dysgwyr, yn enwedig o ystyried y gymdeithas ranedig a oedd yn eglur o'r datblygiadau ynghylch Brexit, gwahaniaethau amlwg rhwng y cyfoethog a'r tlawd, a phwysigrwydd y newid yn yr hinsawdd. Nododd hefyd fod nifer o elfennau o ddiwygio addysg a drafodwyd mewn cyfarfodydd cyffredinol blynyddol blaenorol, fel Adolygiad Hazelkorn, Adroddiad Donaldson ac ailstrwythuro addysg oedolion yn y gymuned yng Nghymru, heb eu datrys o hyd o safbwynt eu deilliannau. Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd yn ffurfiol gan y cyfarfod.</p>
8.	<p>Cynigion i'w Trafod</p> <p>Cynnig 1 <i>Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hwn yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan Kirsty Williams, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, i athroniaeth addysgol Raymond Williams yn Narlith Goffa 2018 Raymond Williams. Galwn ar swyddogion a Phrif Weithredwr Addysg Oedolion Cymru Adult Learning Wales i geisio cyfarfod gyda'r Gweinidog i archwilio sut y gall Llywodraeth Cymru gynorthwyo'r Mudiad i ddarparu dysgu er mwyn dysgu, tuag at gyflawni nod Raymond Williams o greu democratiaeth addysgedig.</i></p> <p>Cynigiwyd: Jeremy Gass; Eiliwyd: Daryl Leeworthy.</p> <p><u>Gwelliant:</u> <i>Dileu'r ail frawddeg ar ôl yr atalnod a rhoi'r canlynol yn ei le: "..., yn ogystal â pharatoi unigolion ar gyfer byd gwaith modern, gan felly cyflawni nod Raymond Williams o greu democratiaeth addysgedig a hyrwyddo cydraddoldeb lles ar yr un pryd trwy ddysgu oedolion yn y gymuned mewn cydweithrediad ag eraill."</i></p> <p>Cynigiwyd: David Smith; Eiliwyd: Cartrefi Cymru Co-operative.</p> <p>Gwnaed y cynnig gan Daryl Leeworthy, a dderbyniodd y gwelliant ar ran y cynigwyr. Dyfynnodd ddatganiadau gan Raymond Williams am rôl addysg oedolion yn meithrin dulliau diwylliannol cyffredin a gostwng pellteroedd diwylliannol, gan ddatgan bod ymweliad gan y Gweinidog Addysg â changen Merthyr Tudful ym mis Chwefror wedi dangos yn glir ei hymrwymiad i agweddau ar ei athroniaeth. Esboniodd David Smith ei fwriad wrth ychwanegu'r ail frawddeg estynedig a chyfeiriodd at y cyflawniadau a gafwyd trwy gydweithio dros y 18 mis blaenorol. Roedd o'r farn bod cysyniad y Brifysgol Gydweithredol yn cyfateb i'r Coleg Cymunedol Cenedlaethol yr oedd AOC ALW yn dyheu i fod, gan ddangos unwaith eto bod cydweithredu ag eraill yn rhan allweddol o fentrau i ymgymryd â nhw.</p> <p>Cytunwyd i'r cynnig, fel y'i diwygiwyd gan y Gwelliant, fel a ganlyn:</p> <p style="text-align: right;">O blaid: 50 Yn erbyn: 0 Atal pleidlais: 2</p>

Cynnig 2

Gyda mwy a mwy o boblogaeth hŷn, mae'r CCB hwn yn cydnabod bod darparu addysg gan Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales i bobl oedrannus yn hynod fuddiol. Mae'n fuddiol o ran atal unigrwydd, gwrthsefyll iselder a gostwng dementia trwy annog gweithgarwch deallusol. Felly, mae'r cyfarfod hwn yn gofyn i'r Mudiad gynyddu ei drefniadau ar gyfer pobl yn y categori hwn.

Cynigiwyd: Cangen Caerffili, Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales;
Eiliwyd: David MacManus.

Roedd y cynnig hwn, gan Jenni Jones-Annetts ar ran cangen Caerffili, wedi cael cefnogaeth hefyd yn Fforwm Rhanbarthol y De-ddwyrain. Roedd ofn bod cyllid ar gyfer cyrsiau fel y rhai yr oedd y gangen yn eu cynnal yn mynd i gael ei dorri ac, er gwaethaf rhai portreadau yn y cyfryngau, nid oedd pob person oedrannus yn gefnog. Cyfeiriodd David MacManus at y ffaith ei fod wedi'i gyflwyno i'r Mudiad am y tro cyntaf gan berson 97 mlwydd oed. Cadarnhaodd Daryl Leeworthy fod aelodau cangen Merthyr Tudful yn adleisio natur y cynnig. Ychwanegodd David Smith fod gweithio sy'n pontio'r cenedlaethau yn bwysig a bod gwneud penderfyniadau yn lleol yn allweddol ar gyfer cynnal annibyniaeth ymhlith yr henoed. Cyfeiriodd y drafodaeth at y ffaith bod y mudiad yn rhyddhau mwy o gyllid ar gyfer darpariaeth heb ei hachredu, gan gynnwys mewn canghennau; roedd hyn yn adlewyrchu bod rheolwyr wedi gwrandao ar yr hyn a ddywedwyd mewn Fforymau Rhanbarthol a manau eraill, a'u bod wedi gweithredu ar hynny. I gloi, cydnabu Jenni Jones-Annetts fod y Cyngor wedi clywed bod mwy o arian i ddod i ganghennau ers llunio'r cynnig, ond safai'r ple bod dosbarthiadau'n gyffredinol yn parhau i gael eu gwneud yn fforddiadwy.

Cytunwyd i'r cynnig fel a ganlyn:

**O blaid: 52
Yn erbyn: 0
Atal pleidlais: 1**

Cynnig 3

Mae'r CCB hwn yn galw ar Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales i sicrhau bod dysgwyr yn gallu dysgu ar eu cyflymder eu hunain, gyda chymorth personol digonol ac ystyriaeth o'u hanghenion amrywiol. Dylid darparu cymorth yn benodol i ddysgwyr gwrywaidd i'w galluogi nhw i fod yn gyfforddus i gyfleu unrhyw anghenion ychwanegol.

Cynigiwyd: Eileen Moyle; Eiliwyd: Jean Farr.

Esboniodd Eileen Moyle fod natur y cynnig yn deillio o arsylwadau mewn dosbarthiadau y bu ynddynt, sef bod dynion o genhedlaeth benodol yn arbennig yn dueddol o beidio â mynegi anawsterau posibl yr oeddent yn eu cael. Er ei bod hi'n glir o'r hyn a glywyd gynt, sef bod y Mudiad eisoes yn gwneud rhywfaint o'r gwaith cefnogol hwn, roedd rhoi mwy o bwyslais yn bosibl o hyd – trwy gymhwyso Technoleg Gwybodaeth i bynciau eraill, er enghraifft. Roedd ei heilydd, cyd-

	<p>ddysgwr, o'r un farn ac wedi cynnig ei sylwadau'n ysgrifenedig (in absentia).</p> <p>Mewn ymateb, dywedwyd bod deddfwriaeth yn dod i rym yn 2020 i gefnogi pobl ag anghenion dysgu ac, er ei bod yn fwy ar gyfer oedolion iau, roedd y Mudiad yn derbyn bod angen cymorth ar bobl hŷn hefyd weithiau. Er bod systemau ar waith, cydnabu Michelle Kerswell fod angen cael cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr fynegi'u hanghenion am gymorth. Roedd hyn yn cynnwys ffyrdd y gallai tiwtoriaid sylwi ar alwadau o'r fath, yn gynnil efallai, heb yr angen am eu datgelu'n ffurfiol a heb o reidrwydd orfod llenwi ffurflen.</p> <p>Cytunwyd i'r cynnig fel a ganlyn:</p> <p style="text-align: right;">O blaid: 48 Yn erbyn: 1 Atal pleidlais: 4</p>
9.	<p>Diolchiadau a Sylwadau i Gau</p> <p>Diolchodd John Graystone i'r cyflwynwyr, i enillwyr y gwobrau ac i'r aelodau am eu cyfraniadau at y diwrnod – ac yn enwedig i'r staff hynny a oedd yn ymwneud yn fwyaf uniongyrchol a threfniadau'r diwrnod, a aeth yn hwylus. Ymddiheurodd am redeg ychydig yn hwyr, ond roedd yn awyddus i roi cyfle i drafod y cynigion yn llawn, a dymunodd daith bleserus adref i bawb.</p>